DATGANIAD POLISI ANSAWDD

Mae'n ofyniad i Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) bod ein holl weithgareddau yn cael eu gwneud yn unol â'n system Iechyd, Diogelwch, Ansawdd ac Amgylcheddol (IDAA) yn unol â ISO 9001:2015.

Amcan ein system rheoli IDAA yw sicrhau:

- Ein bod yn darparu gwasanaeth o safon er mwyn cynnal perthynas dda gyda chwsmeriaid
- Bod boddhad y cwsmer yn parhau i fod yn ofynnol i'n busnes
- Bod gofynion ein cwsmeriaid wedi eu deall a'u cwrdd yn llawn
- Bod gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd gyson, i safon ddiffiniedig a'i fod yn iawn y tro cyntaf
- Bod gennym y sgiliau ac adnoddau i gyflawni gofynion ein cwsmer
- Bod ein staff wedi eu hyfforddi yn llawn ac yn cymryd rhan mewn gwelliant ansawdd
- Rydym yn ceisio gwella ein systemau a gweithdrefnau yn barhaus
- Caiff unrhyw gwynion eu trin yn effeithlon ac o fewn amserlenni sydd wedi eu cytuno

Caiff ein dull ei gefnogi gan ein gweledigaeth o "bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau" a thrwy ein 5 gwerth allweddol sef:

- **Teg** — **Gwneud penderfyniadau cyson a gwrthrychol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu amrywiaeth**
- **Atebol** — **Bod yn effeithiol a chymryd cyfrifoldeb am ein penderfyniadau a'r pethau rydym yn eu gwneud**
- **Agored** — **Bod yn onest a thryloyw yn bob dim 'rydym yn ei wneud**
- **Arloesol** — **Bod yn uchelgeisiol ac yn agored i syniadau a ffyrdd newydd o weithio**
- **Cyfeillgar** — **Bod yn hygyrch ac yn hawdd gweithio efo ni bob amser**

Mae nod y cwmni wedi ei nodi yn ein Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd ar gyfer 2015-2020 sy'n rhoi mwy o fanylion am ein dyheadau.

Caiff ein hamcanion eu hadolygu yn barhaus i sicrhau eu bod yn addas a'u bod yn cwrdd â gofynion ein cwsmeriaid, y busnes, rhanddeiliaid eraill a rheoleiddwyr. Byddwn hefyd yn monitro a mesur perfformiad yn barhaus er mwyn adnabod meysydd gwella a cheisio cael adborth er mwyn gwella safonau.

Byddwn yn cyfathrebu gyda gweithiwyr i godi ymwybyddiaeth am berfformiad ac amcanion busnes a fydd yn ei dro yn arwain at welliannau i'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Mae ein gweithiwyr yn broffesiynol ac wedi ymrwymo i'r amcan hwn a thuag at gyflawni ein gwerthoedd craidd wrth ymgymryd â'n polisïau ansawdd a gofal cwsmer.

Prif Weithredwr

Llofnod	Dyddiad
Shaun Wellens	1/07/2018

Hyrwyddwr IDAA y Bwrdd

Llofnod	Dyddiad
	1/07/2018